**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/HIDCC/2595/25

Mike Hedges AS, Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

3 Tachwedd 2025

Annwyl Mike,

**Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) 2025**

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau 2025").

Mae Rheoliadau 2025 yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys o ran Cymru. Byddant yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthygl 20(1) o Reoliad (EU) 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Mai 2017 ar fercwri (EUR 2017/852) ("y Rheoliad Mercwri") fel y'i hamnewidiwyd gan Reoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

Bydd Rheoliadau 2025 yn gymwys o ran Cymru, Lloegr a'r Alban ac yn unol ag Erthygl 21(3) maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Gosodir y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 02 Rhagfyr 2025 a byddant yn dod i rym ar 23 Rhagfyr 2025.

Mae erthygl 21(8) o'r Rheoliad Mercwri yn golygu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau 2025, sef rheoliadau sydd i'w gwneud o dan Erthygl 20(1) o'r Rheoliad Mercwri o ran Cymru, heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Felly, ysgrifennodd y Farwnes Hayman o Ullock ataf ar 14 Hydref 2025, yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru i Reoliadau 2025. Mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban. Rwy'n bwriadu rhoi fy nghydsyniad ffurfiol i'r Farwnes Hayman o Ullock ar 10 Tachwedd 2025, oni bai bod y pwyllgor yn codi unrhyw bryderon cyn y dyddiad hwnnw.

Crynodeb o Reoliadau 2025

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio Rhan A o Atodiad 2 o'r Rheoliad Mercwri, er mwyn i gyfraith y DU fod yn gyson â phenderfyniadau diweddar o Gonfensiwn Minamata ar Fercwri (COP-4 a COP-5), gan adlewyrchu ymrwymiadau rhyngwladol.

Mae Rheoliadau 2025 yn diweddaru Atodiad 2 drwy gyflwyno cofnodion newydd a dyddiadau dirwyn i ben ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n cynnwys mercwri. Mae'r rhain yn cynnwys pontydd mesur cynhwysiant a cholled â chywirdeb manwl iawn, yn ogystal â switshis a releiau radio amledd uchel a ddefnyddir mewn offerynnau monitro a rheoli, gydag uchafswm cynnwys mercwri o 20 mg yr eitem, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir mewn gwaith ymchwil a datblygu.

Mae Rheoliadau 2025 hefyd yn mynd i'r afael â lampau fflworoleuol cryno (CFLs) at ddibenion goleuo cyffredinol, gan nodi gwahanol gategorïau watedd a dyddiadau dirwyn i ben ar gyfer eu gwahardd. Yn ogystal, mae lampau fflworoleuol llinol (LFLs) a lampau fflworoleuol aflinol (NFLs) yn cael eu cynnwys, gyda mathau penodol o ffosffor a dyddiadau dirwyn i ben graddol. Mae darpariaethau pellach yn gymwys i lampau fflworoleuol catod oer (CCFLs) a lampau fflworoleuol electrod allanol (EEFLs) ar gyfer dangosyddion electronig nad ydynt wedi'u rheoleiddio yn flaenorol. Mae rheoliadau 2025 yn ymestyn i fedryddion straen i'w defnyddio mewn plethysmograffau, trawsddygiaduron, trosglwyddyddion a synwyryddion gwasgedd tawdd (gydag eithriadau ar gyfer mesur manwl uchel), yn ogystal â phympiau gwactod mercwri, gwrthbwysau ar gyfer teiars a phwysau ar gyfer olwynion, papur a ffilm ffotograffig, a thanwydd ar gyfer lloerennau a llongau gofod.

Neilltuir dyddiad penodol i bob categori cynnyrch erbyn y gwaherddir ei ddefnydd, yn bennaf rhwng 2025 a 2027.

<u>Safbwynt Llywodraeth Cymru</u>

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Mewn rhai amgylchiadau, lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny, mae manteision i weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU.

Ar yr achlysur hwn, rwy'n ystyried ei bod yn briodol i sylwedd gwelliannau Llywodraeth y DU fod yn gymwys i Gymru, gan y bydd gweithredu'n amserol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau rhyngwladol o dan Gynhadledd Minamata ar Fercwri. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau angenrheidiol.

Rhagwelir y bydd Rheoliadau 2025 yn cael eu gwneud ar 2 Rhagfyr 2025 a byddant yn dod i rym ar 23 Rhagfyr 2025.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs